

LLWYD (LHUYD), HUMPHREY (c. 1527 - 1568), hynafiaethydd a gwneuthurwr mapiau

PDF Generated on: Tue, 19 Feb 2019 12:23:09 +0000

<https://yba2-prawfweb-prawfdata.llgc.org.uk/article/c12-LLWY-HUM-1527>

Enw: Humphrey Llwyd

Dyddiad geni: c. 1527

Dyddiad marw: 1568

Priod: Barbara Llwyd (née Lumley)

Plentyn: Lumley Llwyd

Plentyn: Jane Llwyd

Plentyn: Humphrey Llwyd

Plentyn: John Llwyd

Plentyn: Henry Llwyd

Plentyn: Splendian Llwyd

Rhiant: Joan Llwyd (née Pigott)

Rhiant: Robert Llwyd

Rhyw: Gwryw

Galwedigaeth: hynafiaethydd a gwneuthurwr mapiau

Maes gweithgaredd: Hanes a Diwylliant; Ysgolheictod ac Ieithoedd

Awdur: Huw Thomas



Ganwyd Humphrey Llwyd tua 1527 yn Ninbych, unig blentyn Robert Llwyd, Clerc y Gwaith yng Nghastell Dinbych, a Joan (g. 1507), merch Lewis Piggott. Fel aelod o gangen iau teulu Llwyd-Rossendale o Ffocsol, Henllan, sir Ddinbych, gallai olrhain ei ach i Henry (Harri) Rossendale o Rossendale, sir Gaerhirfryn, un o ddeiliaid Henry de Lacy, Iarll Lincoln ac Arglwydd Dinbych, a dderbyniodd diroedd yn y sir gan yr Iarll yn 1287 am ei ran yn y goncwest Edwardaidd. Priododd mab Henry, yntau hefyd yn Henry, ag etifeddes ystad Ffocsol, a honnid y gallai Llwyd olrhain ei ach drwyddi hi hyd Einion Effell o Gynllaith.

Ychydig sy'n hysbys am ei fywyd cynnar; dywed Anthony Wood nad yw coleg cyntaf Llwyd yn Rhydychen yn hysbys, ond iddo dderbyn ei radd B.A. yno yn 1547 ac iddo fod yn fyfyrwr cyffredin wedyn yng Ngholeg Brasenose lle y derbyniodd radd M.A. yn 1551. Honna Wood i Llwyd astudio meddygaeth, ond ymddengys fod yr honiad yn seiliedig ar ddau gyfieithiad o destunau meddygol a briodolid iddo. Dangosodd [R. Geraint Gruffydd](#), serch hynny, eu bod yn ôl pob tebyg yn waith [Humphrey Lloyd](#) o Dre'r-llai a fu yng ngwasanaeth Arglwydd Stafford, y gwr y cyflwynwyd un o'r testunau iddo. Dilynwyd Wood gan fwyafrif y bywgraffwyr diweddarach.

Ar ôl cwblhau ei astudiaethau, yn 1553 aeth i wasanaeth Henry Fitzalan, deuddegfed Iarll Arundel, a Changhellor Prifysgol Rhydychen. Yn sgil esgyniad Mari I i'r orsedd yn 1553 roedd grym Arundel ar ei anterth, a chryn gamp fyddai cael lle yng ngwasanaeth un o brif bendefigion y deyrnas. Er bod union natur dyletswyddau Llwyd yn anhysbys, ni chredir bellach iddo fod yn feddyg i'r Iarll fel yr honnodd Wood. Rhestrodd Ieuan M. Williams nifer o ddogfennau o archifau Castell Arundel a manau eraill a ddengys fod Llwyd yn gweithredu ar ran yr Iarll mewn perthynas ag eiddo yn Llundain, Hampshire a Sussex. Mae'n eglur fod Llwyd yn aelod gwerthfawr o osgordd Arundel oherwydd yn ystod senedd cyntaf Elisabeth yn 1559 fe'i hetholwyd yn aelod dros East Grinstead yn Surrey, un o fwrdeistrefi Dugiaeth Caerhirfryn, y bu Arundel yn Stiward arni.

Yn ogystal â'i weithgareddau cyfreithiol a gwleidyddol ar ran Arundel, ymddengys fod gan Llwyd ryw gyfrifoldeb dros lyfrgell yr Iarll, trwy gynorthwyo i gasglu llyfrau iddo ef ac i'w fab-yng-nghyfraith John, Arglwydd Lumley, gan gynnwll llyfrgell sylweddol iddo'i hun yr un pryd. Yn y pen draw prynwyd y llyfrau hyn i gyd gan James I ac maent bellach yn rhan o'r Casgliad Brenhinol yn y Llyfrgell Brydeinig. Mae llofnod Llwyd a/neu Lumley i'w weld mewn dros drigain o gyfrolau yn y casgliad.

Cadarnhawyd cyswllt Llwyd â thylwyth Arundel trwy ei briodas â Barbara Lumley, chwaer John. Mae dyddiad eu priodas yn anhysbys, ond cawsant chwech o blant, pedwar bachgen: Splendian, Henry, John a Humphrey, a dwy ferch: Jane a Lumley.

Erbyn 1563 roedd Llwyd wedi dychwelyd i Ddinbych ac yn byw o fewn muriau'r castell yn ôl Wood. Fe'i rhestrid hefyd yn un o henaduriaid y dref. Yn yr un flwyddyn fe'i hetholwyd yn AS dros Fwrdeistrefi Dinbych, ac yn ystod y senedd hwn y dywedid iddo hyrwyddo'r mesur i ganiatáu cyfieithu'r Beibl a'r Llyfr Gweddi Gyffredin i'r Gymraeg. Er nad oes cofnodion seneddol i gadarnhau hyn, tystir iddo mewn molawd gan [Gruffudd Hiraethog](#). Arweiniodd y ddeddf ddilynol at gyfieithiad Cymraeg o'r *Testament Newydd* gan [William Salesbury](#) yn 1567. Roedd [Salesbury](#) yntau o sir Ddinbych ac yn wr gradd o Rydychen ac mae'n amlwg bod y ddau'n adnabod ei gilydd yn dda; yn wir roedd cefnder i Llwyd wedi priodi un o'r Salsbriaidd.

Bu cryn ddyfalu ynghylch daliadau crefyddol Llwyd. Ar y naill law roedd yn aelod o osgordd Arundel ac yn frawd-yng-nghyfraith i'r Arglwydd Lumley, y ddau'n gatholigion blaenllaw; soniodd rhai amdano fel 'pabydd cydymffurfiol'. Ar y llaw

arall, awgrym gwahanol a roddir gan ei gefnogaeth i'r mesur dros gyfieithu'r Beibl i'r Gymraeg. Awgrymwyd bod dychwelyd i Ddinbych yn fodd i ymbellhau oddi wrth y cynllwynio yr oedd Lumley â rhan gynyddol ynddo. Mae hefyd yn annhebygol y byddai Catholig hysbys wedi cael sêl bendith y Protestaniad pybyr Robert Dudley, Iarll Caerlyr a Barwn Dinbych, fel aelod seneddol dros Ddinbych.

Beth bynnag oedd rhesymau Llwyd dros ddychwelyd i Ddinbych, cadwodd ei gyswllt â gosgordd Arundel ac aeth gydag ef ar ei daith i'r cyfandir yn 1566-7. Yn ystod y daith hon y cyflwynwyd Llwyd i Abraham Ortelius gan [Richard Clough](#), un arall o sir Ddinbych. Bu ei berthynas ag Ortelius yn fodd i Llwyd ddod yn adnabyddus y tu hwnt i Gymru fel awdurdod ar hanes, iaith a thoponymeg ei wlad.

Rywbyrd ar ôl y daith hon i'r cyfandir, tra yn Llundain yn ystod haf 1568, trawyd Llwyd gan dwymyn arw a waethygodd wedi iddo ddychwelyd i Ddinbych, a bu farw yno ar 21 Awst (er bod Ortelius yn rhoi'r 31ain, dyddiad a dderbyniwyd gan rai awduron eraill). Claddwyd ef yn eglwys Llanfarchell yn Ninbych lle saif cofeb sy'n ei ddisgrifio fel 'A famus worthy wight'.

Roedd gan Llwyd enw mawr fel ysgolhaig yn ystod ei oes ei hun, er na chyhoeddwyd ei weithiau enwocaf tan ar ôl ei farwolaeth. Mae ei weithiau cynharaf ar goll bellach. Disgrifiad mewn gohebiaeth rhwng Wood a [Robert Davies](#) yw'r unig wybodaeth am *An Almanacke and Kalender, conteynynge, the daye houre, and mynute of the change of the Moone for ever, and the sygne that she is in for these thre yeares, with the natures of the sygnes and Planetes*. A chatalog Llyfrgell Lumley 1609 yw'r unig dystiolaeth dros lawysgrif o gyfieithiad Saesneg Llwyd o'r argraffiad Ffrangeg o *De Auguriis* gan y dyneiddiwr Eidalaid Agostino Nifo.

Un o'i weithiau pwysicaf, efallai, yw'r hyn a elwir yn *Cronica Walliae*, cyfieithiad Saesneg o Brut y Tywysogion gyda deunydd atodol gan Llwyd, a gwblhawyd yn 1559. Goroesodd y gwaith hwn mewn pum llawysgrif, i gyd yn gopiau diweddarach. Hwn oedd sylfaen yr *Historie of Cambria* gan [David Powel](#) a gyhoeddwyd yn 1584 ac a fu'n waith safonol ar hanes Cymru tan yr ugeinfed ganrif. Ni chyhoeddwyd testun gwreiddiol Llwyd tan 2002.

Cadwyd dau destun Cymraeg o waith Llwyd mewn llawysgrifau, achres ei gyfyrdwr Foulk Lloyd o Ffocsol a gopiwyd gan [Gruffudd Hiraethog](#) a thraethawd ar herodraeth yn llaw [William Llŷn](#), a grynhowyd gan Llwyd o weithiau anhysbys yn Ffrangeg ac ieithoedd eraill.

Mae'r gweithiau eraill a briodolir i Llwyd yn hysbys yn eu ffurf gyhoeddedig yn unig, ac rydym yn ddyledus i Abraham Ortelius am eu bodolaeth. Y cyntaf o'r rhain yw llythyr a anfonwyd gan Llwyd at Ortelius ar 5 Ebrill 1568. Adwaenir y llythyr wrth ei eiriau cyntaf '*De Mona Druidum insula*' a'i brif bwnc yw tarddiad yr enw Môn a hynafiaethau'r ynys. Ymddengys mai ateb oedd y llythyr i gwestiynau a ofynnwyd gan Ortelius yn ystod eu cyfarfod yn Antwerp yn 1567. Ar ôl marwolaeth Llwyd cyhoeddodd Ortelius y llythyr yn argraffiad cyntaf ei atlas *Theatrum Orbis Terrarum* (1570).

Anfonwyd y gweithiau eraill at Ortelius gyda llythyr eglurhaol dyddiedig 3 Awst 1568. Yn y llythyr hwn ([LIGC Llgr 13187E](#)) mae Llwyd yn disgrifio'r gweithiau ac yn esbonio bod ei farwolaeth gyfagos wedi ei orfodi i'w hanfon mewn cyflwr anorffenedig. Un yn unig o'r tri gwaith oedd yn destunol: *Commentarioli Britannicae descriptionis fragmentum*, disgrifiad daearyddol a hanesyddol byr o Brydain, a gyhoeddwyd yng Nghwlen yn 1572 trwy ddylanwad Ortelius. Cyhoeddwyd cyfieithiad Saesneg o'r gwaith hwn gan Thomas Twyne fel *The breviary of Britayne* (1573).

Mapiau oedd y ddau waith arall: map o Loegr a Chymru â'r teitl *Angliae regni florentissimi nova descriptio*, a map o Gymru, [Cambriae typus](#). Cyhoeddwyd y ddau yn y *Theatrum* yn 1573. Yr olaf yw ei waith enwocaf, efallai, gan mai hwn oedd y map cyhoeddedig cyntaf o Gymru. Er gwaethaf ei ddiffygion parhawyd i gyhoeddi'r map tan 1741 a chyfrannodd at sicrhau ei enw fel un o fawrion y Dadeni yng Nghymru.

Er gwaethaf diffyg cydnabyddiaeth iddo mewn canrifoedd diweddarach, mae'n eglur bod gan ysgolheigion y cyfnod barch mawr at Llwyd yn ystod ei fywyd ac yn fuan wedyn. Mewn cerdd fawl a luniwyd gan [Gruffudd Hiraethog](#) yn 1563-4 fe'i molir am ei feistrolaeth ar y celfyddydau breiniol, yn enwedig astronomeg a mathemateg. Cyflwynodd [William Salesbury](#) ail argraffiad ei gasgliad o ddjarhebion Cymraeg i Llwyd gan ei gyfarch fel hyn: 'Tithau, Master Humffre Lloyd, yr hwn a ddleyt y blaen ar bawb o ran cwbledd a theilyngdod pob rhyw oreuddysg a boneddigeiddrwydd anianol'. Mewn llythyr yn 1566 soniodd [Salesbury](#) amdano fel 'the most famous antiquarius of all our country'.

Yn y blynyddoedd ar ôl ei farwolaeth cynyddodd ei fri ymhellach; galwodd William Camden ef yn 'learned Briton' a chyfansoddwyd marwnadau iddo gan ddau o ddisgyblion barddol [Gruffudd Hiraethog](#), [Lewis ab Edward](#) a [Wiliam Cynwal](#). Mae bywgraffiad Wood yn ei ddisgrifio fel 'a person of great eloquence, an excellent rhetorician, a sound philosopher, and a most noted antiquary, and a person of great skill and knowledge in British affairs.'

Efallai mai ei gefnogwr mwyaf oedd Ortelius, a wnaeth ymdrech eithriadol, fe ymddengys, i gadw'r cof yn fyw am rywun na fu iddo gwrdd ag ef fyw nag unwaith neu ddwy. *De Mona* Llwyd yw'r unig achos yn y *Theatrum* lle mae Ortelius yn cyhoeddi llythyr oddi wrth un o'i amryw ohebwyd yn hytrach na defnyddio'r wybodaeth i greu testun disgrifiadol ar gefn y mapiau. Ynghyd â'i waith yn hyrwyddo cyhoeddi'r *Fragmentum* dengys hyn yn eglur faint oedd ei edmygedd at Llwyd.

Mae cyfraniad Llwyd i'r astudiaeth o hynafiaethau Cymru yn ddiymwad, ond eto mae ei ddylanwad yn ehangach o lawer na'r byd academaidd. Trwy lunio ei fap o Gymru fel dyhead diwylliannol gan gynnwys yr holl diriogaeth ar lan orllewinol afon Hafren yn hytrach na darluniad daearyddol syml o'r tair sir ar ddeg fel yr oeddent yn ei gyfnod ef, cyfrannodd Llwyd i'r cysyniad o Gymru fel cenedl ac felly cynorthwyodd i greu'r wlad fel y mae heddiw.

Ac estynnodd ei gyraeddiadau ymhell y tu hwnt i ffiniau Cymru yn ogystal; trwy hyrwyddo'r syniad o eglwys annibynnol gynnar ym Mhrydain cyfrannodd at achos y diwygiad Protestannaidd, ac felly hefyd bu ei waith yn lledaenu'r chwedl am y Tywysog Madog yn darganfod America yn fodd i annog gwladychu Prydeinig yng Ngogledd America a'r gystadleuaeth â gwledydd Ewropeaidd eraill am diroedd newydd. At hyn i gyd, Llwyd biau'r clod bellach am ddyfeisio'r term 'British Empire', ac felly mae ei ddylanwad i'w weld ar lwyfan gwirioneddol fyd-eang.

Awdur

Huw Thomas

Ffynonellau

R. Geraint Gruffydd, 'Humphrey Llwyd of Denbigh: some documents and a catalogue', *Trafodion Cymdeithas Hanes Sir Ddinbych*, 17 (1968), 54-107

R. Geraint Gruffydd, 'Humphrey Llwyd: dyneiddiwr', *Efyrdiau Athronyddol*, 33 (1970), 57-74

R. Brinley Jones, [Llwyd, Humphrey \(1527–1568\), antiquary and map maker](#), *Oxford Dictionary of National Biography*

Th. M. Chotzen, '[Some sidelights on Cambro-Dutch relations](#)', *Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion*, 1937, 101-144

Ieuan M. Williams (gol.), Humphrey Llwyd, *Cronica Walliae: (University of Wales Press Cardiff 2002)*

P. W. Hasler (gol.), *The history of parliament: the House of Commons 1558-1603 (H.M.S.O. London 1981)* ar gael ar y wefan [History of Parliament](#)

F. J. North, *Humphrey Lhuyd's maps of England and of Wales (Cardiff 1937)*

Anthony Wood, *Athenae Oxonienses (1813–20)*. Dyfynnir weithiau yn yr argraffiad cyntaf (1691-2), cyf. i, tt. 382-4

Bruce Ward Henry, 'John Dee, Humphrey Llwyd and the Name "British Empire"', *Huntington Library Quarterly*, vol. 35 no. 2 (1972), 189-190

John H. Barry, *The Cambrian Plutarch (London 1824)*, tt. 299-308

Gill Jones ac Ann Morgan, [Foxhall, Henllan, Denbighshire](#) (2016), ar wefan [Discovering old Welsh houses](#)

G. Penrhyn Jones, 'Humphrey Lhuyd (1527-1568) a sixteenth century Welsh physician', *Proceedings of the Royal Society of Medicine*, 49 (1956), 521-528

Darllen Pellach

[NLW MS 13187E - Letters to Abraham Ortelius](#) yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru

Erthygl Wicipedia: [Humphrey Lhuyd](#)

Dolenni Ychwanegol

VIAF: [37220652](#)

Wikidata: <https://www.wikidata.org/wiki/Q5941507>

Dyddiad cyhoeddi: 2019-01-17

Hawlfraint Erthygl: <http://creativecommons.org/licenses/by/4.0/>